# UN LLAIS CYMRU -

## yn cynrychioli cynghorau cymuned a thref

# Bod yn gynghorydd

**Beth yw cynghorydd?**
Caiff cynghorwyr eu hethol i gynrychioli uned ddaearyddol unigol ar y cyngor, a elwir yn ward neu – mewn llawer o gymunedau llai – ardal gyfan y cyngor cymuned neu dref. Yn gyffredinol, maen nhw'n cael eu hethol gan y cyhoedd bob pedair blynedd.

**Beth mae cynghorwyr yn ei wneud?**
Mae tair prif elfen i waith cynghorwyr.

*1. Gwneud penderfyniadau* - Trwy gyfarfodydd a mynd i bwyllgorau gydag aelodau etholedig eraill, mae cynghorwyr yn penderfynu pa weithgareddau i'w cefnogi, ymhle y dylid gwario arian, pa wasanaethau a ddylid eu darparu a pha bolisïau a ddylid eu gweithredu.

*2. Monitro* – Mae cynghorwyr yn gofalu fod eu penderfyniadau yn arwain at wasanaethau effeithiol ac effeithlon trwy gadw golwg ar ba mor dda mae pethau'n gweithio.

*3. Cymryd rhan yn lleol* - Fel cynrychiolwyr lleol, mae gan gynghorwyr gyfrifoldebau i'w hetholwyr ac i fudiadau lleol. Mae'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau hyn yn aml yn dibynnu ar beth mae'r cynghorydd eisiau'i gyflawni a faint o amser sydd ar gael, a gallant gynnwys:

- Mynd i gyfarfodydd mudiadau lleol fel cymdeithasau tenantiaid.
- Mynd i gyfarfodydd cyrff sy'n effeithio'r gymuned ehangach.
- Mynd ar ôl materion ar ran aelodau'r cyhoedd.
- Cynnal cymhorthfa i glywed am bryderon trigolion lleol.
- Cyfarfod gyda thrigolion unigol yn eu cartrefi eu hunain.

Mynd i weld eich cyngor yw'r ffordd orau o gael gwybod beth sy'n digwydd yno. Rhowch alwad i'r cyngor a chewch wybod pryd mae cyfarfod cyhoeddus nesaf y cyngor yn digwydd. Mae gan bobl gyffredin hawl gyffredin i fod yn bresennol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd y cyngor.

**Faint o amser mae'r gwaith yn gymryd?**
Yn aml iawn mae cynghorwyr yn dweud fod eu dyletswyddau yn golygu tua thair awr o waith yr wythnos. Yn amlwg mae rhai cynghorwyr yn treulio mwy o amser na hynny – a rhai'n treulio llai, ond mae bod yn gynghorydd cymuned neu dref yn ffordd ddifyr o gyfrannu i'ch cymuned, ac o helpu'i gwneud yn well lle i fyw a gweithio ynddo.

Un Llais Cymru, 24 Stryd y Coleg, RHYDAMAN, SA18 3AF
01269 595400 www.onevoicewales.org.uk